# Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016

**2016 dccc 6**

**RHAN 6**

LLOG

**PENNOD 1**

LLOG AR SYMIAU SY'N DALADWY I ACC

*Llog taliadau hwyr*

## 157 Llog taliadau hwyr ar drethi datganoledig

(1) Mae'r adran hon yn gymwys i swm o dreth ddatganoledig—
- (a) sydd wedi ei ddatgan mewn ffurflen dreth fel—
  - (i) y dreth sydd i'w chodi, neu
  - (ii) os yw'r ffurflen dreth yn ffurflen dreth bellach a wneir gan y prynwr mewn trafodiad tir, y dreth trafodiadau tir (neu'r dreth trafodiadau tir ychwanegol) sy'n daladwy;
- (b) sy'n daladwy—
  - (i) o ganlyniad i ddiwygiad i ffurflen dreth o dan adran 41, 45 neu 50;
  - (ii) o ganlyniad i gywiriad i ffurflen dreth o dan adran 42;
  - (iii) yn unol ag asesiad a wnaed yn ychwanegol at ffurflen dreth o dan adran 54 neu 55, neu
- (c) sy'n daladwy yn unol ag—
  - (i) dyfarniad o dan adran 52, neu
  - (ii) asesiad o dan adran 54 neu 55,

a wnaed yn lle ffurflen dreth yr oedd yn ofynnol ei dychwelyd.

(1A) Mae'r adran hon hefyd yn gymwys i swm o dreth gwarediadau tirlenwi a godir gan hysbysiad codi treth a ddyroddir o dan adran 49 neu 50 o DTGT.

(2) Os na chaiff y swm ei dalu cyn dyddiad dechrau'r llog taliadau hwyr, mae'r swm yn dwyn llog (y cyfeirir ato yn y Rhan hon fel "llog taliadau hwyr") ar y gyfradd llog taliadau hwyr ar gyfer y cyfnod—

(a) sy'n dechrau â dyddiad dechrau'r llog taliadau hwyr, a

(b) sy'n dod i ben â'r dyddiad talu.

(3) Dyddiad dechrau'r llog taliadau hwyr yw—

(a) yn achos swm sydd o fewn is-adran (1)(a) neu (b), y dyddiad ar ôl dyddiad ffeilio'r ffurflen dreth;

(b) yn achos swm sydd o fewn is-adran (1)(c), y dyddiad ar ôl dyddiad ffeilio'r ffurflen dreth yr oedd yn ofynnol ei dychwelyd;

(c) yn achos swm sydd o fewn is-adran (1A), y dyddiad sy'n union ar ôl diwedd y cyfnod a bennir yn adran 51 o DTGT.

(4) Ond pan fo adran 160 yn gymwys, dyddiad dechrau'r llog taliadau hwyr yw'r dyddiad a bennir yn yr adran honno.

## 158 Llog taliadau hwyr: atodol

(1) Mae'r adran hon yn gymwys at ddibenion adrannau 157 , 157A a 157B.

(2) Nid yw llog taliadau hwyr yn daladwy ar log taliadau hwyr.

(3) Caiff dyddiad dechrau llog taliadau hwyr fod yn ddiwrnod nad yw'n ddiwrnod busnes o fewn ystyr adran 92 o Ddeddf Biliau Cyfnewid 1882 (p. 61).

(4) Mae'r dyddiad talu, mewn perthynas â swm, yn cynnwys y dyddiad y caiff y swm ei osod yn erbyn swm sy'n daladwy gan ACC.

(5) Mae i "cyfradd llog taliadau hwyr" yr ystyr a roddir gan adran 163(1).

*Dyddiad dechrau'r llog taliadau hwyr: rheolau arbennig*

## 159 Dyddiad dechrau'r llog taliadau hwyr: diwygiadau i asesiadau etc.

. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

## 160 Dyddiad dechrau'r llog taliadau hwyr: marwolaeth trethdalwr

(1) Mae'r adran hon yn gymwys—

(a) os yw person y mae swm o dreth ddatganoledig i'w godi arno neu gosb sy'n ymwneud â threth ddatganoledig i'w chodi arno yn marw cyn y daw'r swm yn daladwy, a

(b) os nad yw'r ysgutor neu'r gweinyddwr yn gallu talu'r swm cyn cael profiant neu lythyrau gweinyddu neu ddogfen arall ag iddi effaith gyfatebol o dan gyfraith gwlad neu diriogaeth heblaw Cymru a Lloegr mewn perthynas ag ystad yr ymadawedig.

(2) Dyddiad dechrau'r llog taliadau hwyr ar gyfer y swm hwnnw yw'r hwyraf o'r canlynol—

**Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 18/10/2017. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) pennod no longer has effect.
**Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016, PENNOD 1. (See end of Document for details)

(a) y dyddiad a fyddai wedi bod yn ddyddiad dechrau'r llog taliadau hwyr oni bai am yr adran hon, a

(b) y diwrnod ar ôl diwedd y cyfnod o 30 o ddiwrnodau sy'n dechrau â grant profiant neu lythyrau gweinyddu neu ddogfen arall ag iddi effaith gyfatebol o dan gyfraith gwlad neu diriogaeth heblaw Cymru a Lloegr mewn perthynas ag ystad yr ymadawedig.

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 18/10/2017. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) pennod no longer has effect.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016, PENNOD 1.